**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS
Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes
Senedd Cymru
Caerdydd,
CF99 1SN

llywydd@senedd.wales

27 Hydref 2022

Annwyl Elin,

Fel y byddwch yn gwybod, yng nghyfarfod y Pwyllgor Busnes ar 4 Hydref, cafodd y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer Bil Protocol Gogledd Iwerddon ("y Bil") ei atgyfeirio i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, gyda'r dyddiad cau ar gyfer adrodd ar 7 Tachwedd. Roedd hyn oherwydd y drafodaeth cydsyniad deddfwriaethol wedi'i threfnu yn y Senedd ar gyfer 8 Tachwedd, mewn perthynas â pha mor gyflym mae Llywodraeth y DU yn bwriadu symud y Bil drwy Senedd y DU.

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Busnes ar 18 Hydref, ymrwymais i ddarparu diweddariad pe bai modd estyn y cyfnod a roddwyd i'r pwyllgorau perthnasol ar gyfer adrodd ar y memorandwm.

Mewn ymateb i ddiweddariadau i'r amserlen yn Nhŷ'r Arglwyddi, rydym bellach yn cynnig cynnal y drafodaeth cydsyniad deddfwriaethol ar 15 Tachwedd. Felly, rwy'n gallu argymell bod y cyfnod ar gyfer adrodd ar y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol yn cael ei estyn i 14 Tachwedd, y diwrnod cyn y dyddiad newydd ar gyfer y drafodaeth.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Os yw'r Pwyllgor Busnes yn cytuno i'r estyniad hwn, rwy'n gobeithio y bydd y craffu ychwanegol yn cael ei groesawu gan y pwyllgorau perthnasol. Mae'r sefyllfa mewn perthynas â'r Bil yn parhau i ddatblygu yn gyflym, ac os wy'n clywed am newidiadau perthnasol eraill, byddaf yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Busnes yn y cyfarfod nesaf ar 8 Tachwedd.

Cofion,

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**